Papur y Bwrdd

10 Chwefror 2015

Teitl y Papur	**Adroddiad Perfformiad 2014/15** **Adroddiad am y Flwyddyn (1 Ebrill i 30 Tachwedd 2014)**
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 5.15**
Noddwr y Papur:	**Tîm Gweithredol**
Paratowyd y Papur gan:	**John Hogg**

Pwrpas y Papur:	**Ystyried perfformiad CNC yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf a'r ail gyfnod adrodd (rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2014)**
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd: • Graffu ar berfformiad a'i lywodraethu er mwyn adrodd arno i Lywodraeth Cymru • Rhoi cyngor a chymorth ar addasrwydd parhaus y Fframwaith Perfformiad • Nodi'r Gofrestr Risgiau Gweithredol ddiweddaraf
Angen Penderfyniad:	Cymeradwyo'r adroddiad ar berfformiad

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae'r adroddiad ar berfformiad yn dangos cynnydd o ran cyflawni dangosyddion a thargedau Amgylchedd Da yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes 2014/15. **Effaith ar yr Economi**: Mae'r adroddiad ar berfformiad yn dangos cynnydd o ran cyflawni dangosyddion a thargedau Da i Fusnes yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes 2014/15. **Effaith ar y Gymuned**: Mae'r adroddiad ar berfformiad yn dangos cynnydd o ran cyflawni dangosyddion a thargedau Da i Bobl yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes 2014/15. **Effaith ar Wybodaeth**: Mae'r adroddiad ar berfformiad yn dangos cynnydd o ran cyflawni dangosyddion a thargedau Gwybodaeth Dda yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes 2014/15..

Pwnc

1. Datblygwyd ein Fframwaith Perfformiad mewn ymateb i'r gofyniad penodol yn ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2014/15. Y Fframwaith yw un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar ein cyflawniad a chefnogi cynlluniau strategol. Cafodd y Fframwaith ei ystyried a'i gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ar 14 Mai 2014.

2. Mae Dangosfwrdd y Cynllun Busnes yn elfen o'r Fframwaith Perfformiad. Ar ôl cytuno ar y Fframwaith ar 14 Mai 2014 gofynnwyd i is-grŵp y Bwrdd ar Berfformiad ystyried sut i fynd i'r afael â sylwadau'r Bwrdd yn y Dangosfwrdd. Cwblhawyd y gwaith hwn gyda swyddogion ym mis Mehefin 2014 a chyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd ar 9 Gorffennaf 2014. Cafodd y cylch cyntaf o adrodd am berfformiad, am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf, ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Bwrdd ar 2 Hydref 2014.

3. Mae'r ail gylch o adroddiadau perfformiad, ar gyfer y flwyddyn hyd at 30 Tachwedd wedi'i gwblhau a'r adroddiad ar berfformiad wedi'i baratoi i'r Bwrdd graffu arno cyn ei anfon i Lywodraeth Cymru. Cyflwynir adroddiadau perfformiad ar yr adroddiad hwn bob pedwar mis.

4. Defnyddir cofrestri risgiau lefel corfforaethol ac ar lefel cyfarwyddiaeth yn rheolaidd i fonitro a chraffu ar berfformiad a chyflwyniad.

Crynodeb

5. Mae'r adroddiad perfformiad hwn (Atodiad 1), fel y cytunwyd gan y Bwrdd, yn cynnwys elfennau penodol:

- Adroddiad Perfformiad Cryno un dudalen yn darparu trosolwg un dudalen o berfformiad yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2014/17, Cynllun Busnes 2014/15 a'r Achos Busnes dros sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Adroddiadau Cynnydd yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ar ein dangosyddion corfforaethol a mesurau perfformiad ar gyfer pob un o'n pum Rhaglen 'Dda'.
- Dangosfwrdd y Cynllun Busnes yn rhoi trosolwg un dudalen o sut rydym yn gwneud cynnydd gyda thargedau ein Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15 ac ychydig o ddangosyddion.

6. Mae'r Gofrestr Risgiau Gweithredol (Atodiad 2) yn dangos yr ystyriaeth ddiweddaraf o risgiau sy'n gysylltiedig â'n gwaith. Defnyddir y gofrestr gyda chofrestri risgiau cyfarwyddiaethau a dangosfyrddau perfformiad y cyfarwyddiaethau i fonitro a chraffu ar gyflawniad.

7. Gofynnir i'r Bwrdd:

- Graffu a llywodraethu ar berfformiad, fel y gellir adrodd ar hyn i Lywodraeth Cymru
- Rhoi cyngor a chymorth ar addasrwydd parhaus y Fframwaith Perfformiad

- Nodi'r Gofrestr Risgiau Gweithredol ddiweddaraf

8. Mae ystyried perfformiad ar lefelau Corfforaethol a Chynllun Busnes yn bwysig fel y gall y Bwrdd ddarparu dealltwriaeth o gynllunio strategol. Un o ofynion ein cylch gwaith ar gyfer 2014/15 yw ein bod yn defnyddio dull 'Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau' (RBA) ar gyfer cynllunio a pherfformiad.

- Mae'r lefel Gorfforaethol yn dangos dangosyddion sy'n adlewyrchu a ydym yn cyflawni ein huchelgais "er lles i..." ar gyfer pob Rhaglen. Dyma lefel Cymru, neu "boblogaeth gyfan" RBA.
- Mae'r lefel Busnes yn dangos mesurau perfformiad cynnydd tuag at gyflawni targedau ein Cynllun Busnes. Dyma lefel cyfraniad, neu "berfformiad" CNC RBA.

9. Fel hyn, mae ein Fframwaith Perfformiad yn ein galluogi i ystyried cyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru at gyflawni canlyniad, gan gydnabod ar yr un pryd nad yw cyflawni'r amcan hwnnw'n llwyr ddibynnol ar weithgarwch Cyfoeth Naturiol Cymru.

10. Mae Dangosfwrdd y Cynllun Busnes yn dangos perfformiad y 36 mesur ar draws y pum Thema. Rydym hefyd yn dangos y sefyllfa yn erbyn pum dangosydd[1] ar gais y Bwrdd. Dangosir y sefyllfa gyfredol (cyfnod 2) isod, ynghyd â'r sefyllfa flaenorol (cyfnod 1) a'r sefyllfa a ragwelir (cyfnod 3/diwedd blwyddyn).

	Cyfnod 1 (Statws blaenorol)	**Cyfnod 2 (Sefyllfa gyfredol)**	Cyfnod 3 (Sefyllfa a ragwelir)
'Gwyrdd'	21	**25**	29
'Ambr'	14	**12**	8
'Coch'	3	**2**	2
Amh[2]	2	**2**	2
Cyfanswm	40[3]	**41**	41

11. Gan droi at y cylch adrodd cyfredol, mae'r 2 adroddiad "coch" fel a ganlyn:

- *Rydym yn cyflawni ein rôl fel ymgynghorai statudol wrth ymateb i ymgynghoriadau cynllunio* (perfformiad 80% ar gyfer yr ail chwarter, yn erbyn targed o 90%): Rydym yn methu cyflawni amserlenni gofynnol ar gyfer cyflawni ein rôl fel ymgynghorai statudol. Fodd bynnag, rydym wedi gwella ein sefyllfa o ran ymateb i geisiadau

[1] Y dangosyddion hwn yw: Ee: Amgylchedd Morol, Tirol a Dŵr Croyw; Ea: Amgylchedd y dŵr; Bd: Ein rôl fel ymgynghorai statudol; Be: Cynhyrchu incwm; Ob: Mynegai ymgysylltu â staff,

[2] Dangosyddion lle nad yw graddfa coch/ambr/gwyrdd yn berthnasol ar hyn o bryd. Y dangosyddion hyn yw: Mae amgylchedd y dŵr yn gwella (h.y. Dangosydd Ea: Amgylchedd Dŵr): Ar gael yn 2015/16; Mae gan bawb hyder yn ein llwyddiant cyfunol (h.y. Dangosydd Ob: Mynegai ymgysylltu â staff): Ar gael ar gyfer diwedd blwyddyn 2014/15.

[3] Mae gennym 36 measur erbyn hyn, 1 yn fwy na 35 y cyfnod blaenorol, ar ôl cynnwys mesur ar bryfed peillio

cynllunio, gan wella perfformiad o 70% yn chwarter cyntaf 2014/15 i 80% yn yr ail chwarter. Ers i ni adrodd ddiwethaf, mae'r ffigurau misol yn dangos y gwelliant hwn yn fanylach. Roedd y ffigur ar gyfer mis Awst yn 71%, mis Medi yn 74%, mis Hydref yn 87% a mis Tachwedd yn 94%. Mae hyn yn galonogol ac yn adlewyrchu gwaith caled y timau i wella prosesau a llif. Rydym hefyd wedi symud ymlaen gyda meysydd allweddol a fydd yn arwain at ddulliau gwaith cynaliadwy.

- *Mae cyflwr nodweddion ar safleoedd yn gwella* (perfformiad o 23%-33% yn erbyn y targed o 95% a nodir yn Strategaeth Amgylcheddol Cymru): Mae cyflwr nodweddion ar safleoedd yn cymryd llawer o flynyddoedd i ddangos gwelliant fel arfer ar ôl y gwaith a wneir ar lawr gwlad. Ein cyfraniad uniongyrchol i sicrhau gwelliant yn y dangosydd hwn yw rhaglen Natura 2000 LIFE (LIFE N2K). Mae'r rhaglen hon yn nodi'r holl gamau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â phroblemau cyfredol a risgiau pellach i nodweddion mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mae ein swyddogion wedi nodi 352 cam gweithredu i gyd, a byddwn yn defnyddio'r rhain eleni i fynd i'r afael â phroblemau rheoli cadwraeth ar safleoedd dynodedig, gan roi blaenoriaeth i safleoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd a mesurau a nodwyd yng Nghynlluniau Rheoli y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae cyflawniad ein camau gweithredu ein hunain yn cael ei adlewyrchu yn y mesur "Byddwn yn gwneud ein rhan ac yn gweithio gydag eraill i atal colli bioamrywiaeth…" sy'n wyrdd ar hyn o bryd. Rydym wedi cyfrannu at, ac wedi gwneud sylwadau ar gynllun adfer natur Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi mesurau sy'n briodol i'n cynllun corfforaethol o 2017 sy'n cyd-fynd â'r dull strategol newydd. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein camau gweithredu ar geisiadau Glastir a'r gweithgareddau a'r safleoedd sydd yn y perygl mwyaf.

12. A ninnau yn dal i fod yn yr ail gylch adrodd, mae eitemau eraill i'w nodi o'r fframwaith perfformiad fel a ganlyn:

- *Rydym yn cynnal asedau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd risg uchel, gan flaenoriaethu ein hymdrechion ar y rhai sy'n wynebu'r risgiau mwyaf*: mae 97.4% o'n hasedau perygl llifogydd mewn systemau risg uchel ar y trywydd iawn i gyflawni eu targedau. Mae'r targed yn 99% ar gyfer risg uchel. Cafwyd gwelliant graddol yn ffigurau perfformiad yr asedau dros y misoedd diwethaf. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, byddwn yn cynnal prosiect i adolygu'r systemau Rheoli Perygl Llifogydd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r baneri perygl llifogydd (Uchel/Canolig/Isel) a ddyrennir i systemau Rheoli Perygl Llifogydd. Dylai hyn sicrhau bod yr asedau'n parhau i fod yn y categori risg cywir.
- *Rydym yn cyflawni ein Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd*: Rhagwelir y bydd 467 eiddo arall yn elwa ar amddiffynfeydd gwell erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym hefyd wedi gweithredu amddiffyniad ar lefel eiddo i dros 150 eiddo. Ar hyn o bryd, ni fyddwn yn cyrraedd y targed gan fod cynlluniau amddiffynfeydd môr Ffordd Isa a Newton wedi symud i'r flwyddyn ariannol nesaf.

- *Rydym yn penderfynu ar ganiatadau, trwyddedau a chydsyniadau gan fodloni amserlen cyfnod y penderfyniad statudol neu'r cytundeb lefel gwasanaeth*: rhoddwyd 88% (2,621 of 2,979) o drwyddedau (blwyddyn hyd at ddiwedd mis Tachwedd) o fewn y cyfnod penderfyniad statudol neu lefel gwasanaeth yn erbyn targed o 90%, er bod y ffigur ar gyfer Tachwedd ei hun yn 89%. Mae prosesau y gyfundrefn caniatadau/trwyddedau/cysyniadau yn cael eu gwerthuso er mwyn archwilio dulliau cyfredol, a nodi newidiadau posibl i wella effeithlonrwydd.
- *Gwirfoddoli a datblygu sgiliau yn yr amgylchedd:* Byddwn yn datblygu cynllun gwirfoddoli Cyfoeth Naturiol Cymru ar ôl cytuno ar egwyddorion cynllun cyffredinol Cyfoeth y llynedd. Bydd Gweithrediadau yn datblygu'r cynllun *Coetiroedd a Chi* ledled Cymru gyda chefnogaeth Strategaeth, Gwybodaeth a Chynllunio a Gwasanaethau Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwiliad Mewnol. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd yn goruchwylio ymateb i'r adroddiad archwilio mewnol.
- *Rydym yn darparu cymorth busnes a gofal cwsmeriaid effeithlon ac effeithiol i'n staff a'n cwsmeriaid:* Mae ein hyder i gyflawni'r pedwar mesur sylfaenol (cyflogres, incwm, lefel dyledion a pherfformiad taliadau yn dibynnu ar y risg sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r system newydd o gwmpas y mesurau hyn. Gwneir pob ymdrech i reoli'r risgiau hyn.

13. Yn ogystal â'r eitemau uchod i'w nodi, mae'r mesurau dangosfwrdd canlynol wedi'u dangos fel rhai ambr:

Mesur Dangosfwrdd	**Statws disgwyliedig diwedd blwyddyn**
Rydym yn datblygu dull Cymru o Reoli Adnoddau Naturiol	Gwyrdd
Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi adnoddau naturiol, yn cynnwys datblygu Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol	Gwyrdd
Rydym yn sicrhau ein bod ni'r rheoli'r tir a'r dŵr sydd o dan ein rheolaeth yn gynaliadwy	Gwyrdd
Rydym yn datblygu ein strategaeth addysg i gynnwys dysgu yn yr amgylchedd naturiol ac amdano, a chysylltu â'r cwricwlwm a chyfleoedd dysgu ehangach	Parhau i fod yn ambr ar ddiwedd y flwyddyn gan fod y strategaeth yn cael ei hanfon i gyfarfod Bwrdd mis Chwefror nid mis Tachwedd
Rydym yn gweithredu mentrau i Lywodraeth Cymru	Parhau i fod yn ambr yn sgil ansicrwydd dros drefniadau rheoli hirdymor Llwybr Arfordir Cymru
Rydym yn cynllunio ac yn dyrannu adnoddau i flaenoriaethau busnes ac yn darparu	Gwyrdd

adroddiadau perfformiad sy'n sicrhau gwelliannau parhaus	
Rydym yn cyflawni ein prosiectau trawsnewid i helpu i sefydlu ein gallu i weithredu'n annibynnol	Gwyrdd
Rydym yn darparu ein strategaeth safleoedd	Parhau i fod yn ambr ar ddiwedd y flwyddyn gan y byddwn yn lleihau nifer y safleoedd i 67 yn lle'r targed o 64

14. Yn unol â chyfarfod y Bwrdd ar 2 Hydref, cymerwyd y camau canlynol:

- Ychwanegu mesur ar bryfed peillio. Mae gennym 36 mesur erbyn hyn, un yn fwy na'r 35 yn y cyfnod blaenorol, ar ôl cynnwys mesur ar bryfed peillio fel y cytunwyd.
- Diwygiwyd y mesur "Rydym yn gwella iechyd, diogelwch a lles y gweithlu". Mae'r mesur nawr yn adrodd ar achosion o golli amser i staff yn unig, ac nid yw'n cynnwys contractwyr. Ni ddangosir gwybodaeth tuedd ar gyfer y mesur hwn, gan fod ei ffocws heb newid.
- Ymgysylltu â staff: Rydym yn datblygu dull mwy cywir o fesur ymgysylltiad staff ledled CNC drwy arolwg staff. Bydd hwn yn cael ei lansio ym mis Chwefror 2015. Bydd yn ffurfio llinell sylfaen newydd ar gyfer sgôr ymgysylltu â staff.

Camau Nesaf

15. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, byddwn yn anfon ac yn trafod yr adroddiad ar berfformiad gyda'n Hadran Noddi yn Llywodraeth Cymru.

Rigiau

16. Pe na bai'r Bwrdd yn craffu'n drylwyr ar ein perfformiad mae yna berygl y byddem yn methu â chyflawni ein Cynlluniau Corfforaethol a Busnes. Byddai'r Bwrdd hefyd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd i gyflawni gwaith craffu a llywodraethu.

Goblygiadau Ariannol

17. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol o ran darparu'r Fframwaith Perfformiad.

Cyfathrebu

18. Bydd yr adroddiad ar berfformiad yn gofyn am gyfathrebu gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol.

19. Bydd copi o'r adroddiad ar berfformiad yn cael ei roi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru er gwybodaeth i'r cyhoedd ac eraill.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

20. Amherthnasol.

Mynegai Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad ar berfformiad 2014/15 cyfnod 1 (1 Ebrill i 30 Tachwedd 2014).
Atodiad 2 – Y Gofrestr Risgiau Gweithredol